**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**06/12/01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0059 Cyfle i gael Triniaeth Gwrth-TNF (Ffactor Necrosis Tiwmor) /Access to Anti-TNF (Tumour Necrosis Factor) Treatment

06 Dec 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Cyfle i gael Triniaeth Gwrth-TNF (Ffactor Necrosis Tiwmor)*

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi datblygiad triniaethau "gwrth-TNF" newydd sydd â’r potensial i weddnewid bywydau pobl sydd â chrydcymalau gwynegol gwanychol y mae cyffuriau hy^n wedi methu yn eu hachos hwy.*

*Mae’r Cynulliad yn nodi ymhellach, a hynny gyda chryn bryder, fod y triniaethau newydd hyn wedi’u gwrthod i’r mwyafrif o’r rhai y mae arnynt eu hangen.*

*Mae’r Cynulliad yn galw ar Lywodraeth Cymru :*

- *I ymchwilio i paham nad yw’r triniaethau newydd hyn yn cael eu hariannu ar hyn o bryd*
- *I weithio i roi diwedd ar ragnodi gwrth-TNF yn ôl codau post*
- *Ac i drefnu bod cyllid ar gael i ddarparu ar gyfer triniaeth briodol lle bo angen.*

*Access to Anti-TNF (Tumour Necrosis Factor) Treatment*

*The National Assembly notes the development of new "Anti-TNF" treatments that have the*

*potential to transform the lives of people with debilitating rheumatoid arthritis for whom older drugs have failed.*

*The Assembly further notes, with grave concern, the denial of access to these new treatments for the majority of those in need.*

*The Assembly calls on the Government of Wales to:*

- *investigate why the new treatments are not being presently funded;*
- *work to end postcode prescribing of Anti-TNF; and*
- *make funds available to provide for appropriate treatment where necessary.*

## OPIN-2001-0058 Hyd Toriad y Cynulliad/ Amount of Assembly Recess

04 Dec 2001 Raised by Jocelyn Davies, Elin Jones

8 Subscribers:

Brian Hancock
Owen John Thomas MA
Janet Ryder
Helen Mary Jones
Janet Davies
Cynog Dafis
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Dafydd Wigley

*Hyd Toriad y Cynulliad*

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei ofid ynghylch hyd y toriad y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cred ei bod yn ormodol ac yn annerbyniol torri ar waith Llywodraeth y Cynulliad am dri mis dros yr haf a chytunir y dylai'r Cynulliad benderfynu faint o wythnosau y dylai ymgynnull yn ôl y gwaith sydd ganddo i'w wneud yn hytrach na sawl wythnos o doriad y dymuna Aelodau'r Cynulliad eu cael.*

*Amount of Assembly Recess*

*The National Assembly expresses concern at the amount of recess weeks agreed for next*

*year. It believes that it is excessive and unacceptable for the Assembly Governments Business to be curtailed for three months over the summer period and agrees that the Assembly should decide how many weeks it sits for by the amount of work it has to do rather than how many weeks recess that Assembly Members wants.*

## OPIN-2001-0057 Lwfansau Aelodau’r Cynulliad/ Assembly Members Allowance

29 Nov 2001 Raised by David Melding

1 Subscriber:

Jonathan Morgan LLB MSc FRSA

*Lwfansau Aelodau’r Cynulliad*

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Trefnydd i neilltuo amser yn y Cyfarfod Llawn i drafod NNDM 784 sy’n gofyn i Swyddfa’r Llywydd gyhoeddi bob blwyddyn y lwfansau a hawlir gan bob Aelod unigol o’r Cynulliad.*

*Assembly Members Allowance*

*The National Assembly calls upon the Minister for Assembly Business to allocate time in the Plenary session for the discussion of NNDM 784 which requests the Office of the Presiding Officer to publish annually the allowances claimed by each Assembly Member.*

## OPIN-2001-0056 Ambiwlansys i Giwba/Ambulances for Cuba

28 Nov 2001 Raised by Richard Edwards, Helen Mary Jones

3 Subscribers:

Tom Middlehurst
Janet Ryder
Lorraine Barrett

*Ambiwlansys i Giwba*

*Mae'r Cynulliad hwn yn cymeradwyo'r cymorth dyngarol uniongyrchol a ddarperir gan yr elusen Salud International yn ei waith i ailadeiladu Gwasanaeth Ambiwlans Ciwba, ac yn croesawu'r cyfle i Gymru hybu cydweithrediad rhyngwladol trwy gynnig cymorth dyngarol. Rydym yn annog Aelodau i gefnogi'r fenter trwy gyfraniadau ariannol a chyfraniadau eraill.*

*Ambulances for Cuba*

*This Assembly commends the direct humanitarian aid provided by the charity Salud International in its work to rebuild the Cuban Ambulance service, and welcomes the opportunity for Wales to further international co-operation by offering humanitarian assistance. We encourage Members to support the initiative through financial and other contributions.*